TACTEG CYMRAEG

## CWESTIYNAU CWIS:
## Creu Adroddiad – Profwch eich hunain!

1: Mae adroddiadau i'w gweld mewn sawl lle gwahanol.
Dewiswch y pedwar lle gorau o'r rhestr lle gallwch ddod o hyd i adroddiadau.

- ☐ Cefn bocs creision ŷd
- ☐ Papur newydd
- ☐ Sinema
- ☐ Siop losin
- ☐ Radio
- ☐ Parc chwarae
- ☐ Cefn bws
- ☐ Teledu
- ☐ Gêm gyfrifiadur
- ☐ Rhyngrwyd

2: Mae penawdau adroddiadau mewn papur newydd yn bwysig i ddenu sylw'r darllenydd. Gallwch ddefnyddio cyflythrennu i greu pennawd da, hynny yw, ailadrodd yr un llythyren nifer o weithiau. Dyma nifer o benawdau wedi eu rhannu'n ddau.
Rhowch y llythyren cywir yn y blwch i gwblhau'r pennawd.
Dyma'r opsiynau:

**A** - yn ennill cystadleuaeth.

**B** - yn bwyta byrgyrs Brycheiniog.

**C** - yn gwylio gornest gyffrous.

☐ Cacennau ceirios Carys

☐ Gyrrwyr gwyllt Gwaundarw

☐ Beicwyr Blaenau



©BBC

3: Mae Jac Jones, gohebydd y Cronicl, wedi bod yn holi llygad-dystion ynglŷn â sefydlu canolfan ailgylchu newydd yn y pentref. Mae'n bwysig i ohebydd ddangos dwy ochr y geiniog felly mae Jac wedi casglu nifer o ddyfyniadau wrth bobl sydd o blaid ac yn erbyn y ganolfan newydd. Darllenwch y dyfynodau. Ydyn nhw o blaid neu yn erbyn y ganolfan newydd?

"Bydd drewdod mawr dros y pentref, bydd neb eisiau symud 'ma i fyw," dywedodd Mr Jones o Stryd y Capel.

☐ O blaid

☐ Yn erbyn

4: "Mae'r cyngor yn gwastraffu ein harian ni unwaith eto. Gwell fyddai gwario'r arian ar adeilad newydd i'r ysgol," meddai Rhian Tomos, pennaeth yr ysgol gynradd.

☐ O blaid

☐ Yn erbyn

5: "Mae hi'n hen bryd - dw i wedi hen laru ar gludo papur a phlastig 10 milltir i ffwrdd," dywedodd Alys Owen.

☐ O blaid

☐ Yn erbyn

6: "Bydd hi'n beth da iawn i'r pentref gan fod mwy o swyddi'n cael eu creu," meddai Dylan Roberts.

☐ O blaid

☐ Yn erbyn


©BBC

7: Pan mae gohebydd yn ysgrifennu adroddiad, mae'n enwi pobl ynddo yn gyson. Yn lle ailadrodd enw'r un person drosodd a throsodd, mae'r gohebydd yn defnyddio rhagenwau e.e. hi, fe, nhw. Dewiswch y rhagenwau gorau o'r rhestr i gwblhau'r adroddiad papur newydd nesaf:

Bu dadlau mawr yn Eisteddfod Sir Llanunman ddoe. Ar ôl i'r beirniad Mrs Siân Owen gyhoeddi enw enillydd yr unawd dan 10, gwnaeth nifer o rieni gwyno am y penderfyniad.

Dywedodd Mrs Owen wrthyn **nhw / hi / ni'n / hi'n** ei bod **nhw / hi / ni'n / hi'n** wedi meddwl yn ofalus cyn dod i'r penderfyniad. Roedd **nhw / hi / ni'n / hi'n** bendant fod yr enillydd yn haeddu'r wobr gyntaf.

Roedd y rhieni anhapus yn benderfynol o gwyno ymhellach a chyhoeddon **nhw / hi / ni'n / hi'n** eu bwriad i ysgrifennu llythyr at y pwyllgor gwaith.

Dywedodd Mrs Dafis, un o'r rhieni anhapus, "Rydyn **nhw / hi / ni'n / hi'n** credu fod Mrs Owen ar fai am roi'r wobr gyntaf i'w merch **nhw / hi / ni'n / hi'n** eu hunain, Blodwen Haf Owen."

8: Mae gohebydd yn ysgrifennu adroddiad yn fyr ac yn fachog. Gallwch ddefnyddio berfau cryno er mwyn ysgrifennu yn symlach ac yn fyrrach e.e. yn lle 'Roedd Mr Jones wedi cerdded i'r neuadd', ysgrifennwch 'Cerddodd Mr Jones i'r neuadd'.

Darllenwch y llinellau nesaf o adroddiadau a dewiswch ffurf gryno'r ferf. (Cwestiynau 8-11)

Gwnaeth y cyngor benderfynu gohirio'r gyngerdd

- ☐ Dathlodd
- ☐ Canodd
- ☐ Penderfynodd
- ☐ Enillodd



©BBC

9: Roedd y cwmni wedi dathlu'r wobr yn y gwesty lleol

☐ Dathlodd

☐ Canodd

☐ Penderfynodd

☐ Enillodd

10: Gwnaeth Ysgol Llanunman ennill cystadleuaeth ysgrifennu cerdyn post

☐ Dathlodd

☐ Canodd

☐ Penderfynodd

☐ Enillodd

11: Roedd y plant wedi canu'n swynol yng nghyngerdd Nadolig yr ysgol

☐ Dathlodd

☐ Canodd

☐ Penderfynodd

☐ Enillodd



©BBC

# ATEBION CWIS:
# Creu Adroddiad – Profwch eich hunain!

1: Mae adroddiadau i'w gweld mewn sawl lle gwahanol.
Dewiswch y pedwar lle gorau o'r rhestr lle gallwch ddod o hyd i adroddiadau.

- ☐ Cefn bocs creision ŷd
- ☑ Papur newydd
- ☐ Sinema
- ☐ Siop losin
- ☑ Radio
- ☐ Parc chwarae
- ☐ Cefn bws
- ☑ Teledu
- ☐ Gêm gyfrifiadur
- ☑ Rhyngrwyd

2: Mae penawdau adroddiadau mewn papur newydd yn bwysig i ddenu sylw'r darllenydd. Gallwch ddefnyddio cyflythrennu i greu pennawd da, hynny yw, ailadrodd yr un llythyren nifer o weithiau. Dyma nifer o benawdau wedi eu rhannu'n ddau.
Rhowch y llythyren cywir yn y blwch i gwblhau'r pennawd.
Dyma'r opsiynau:

**A** - yn ennill cystadleuaeth.

**B** - yn bwyta byrgyrs Brycheiniog.

**C** - yn gwylio gornest gyffrous.

| | |
|---|---|
| **A** | Cacennau ceirios Carys |
| **C** | Gyrrwyr gwyllt Gwaundarw |
| **B** | Beicwyr Blaenau |


©BBC

3: Mae Jac Jones, gohebydd y Cronicl, wedi bod yn holi llygad-dystion ynglŷn â sefydlu canolfan ailgylchu newydd yn y pentref. Mae'n bwysig i ohebydd ddangos dwy ochr y geiniog felly mae Jac wedi casglu nifer o ddyfyniadau wrth bobl sydd o blaid ac yn erbyn y ganolfan newydd. Darllenwch y dyfynodau. Ydyn nhw o blaid neu yn erbyn y ganolfan newydd?

"Bydd drewdod mawr dros y pentref, bydd neb eisiau symud 'ma i fyw," dywedodd Mr Jones o Stryd y Capel.

☐ O blaid

☑ Yn erbyn

4: "Mae'r cyngor yn gwastraffu ein harian ni unwaith eto. Gwell fyddai gwario'r arian ar adeilad newydd i'r ysgol," meddai Rhian Tomos, pennaeth yr ysgol gynradd.

☐ O blaid

☑ Yn erbyn

5: "Mae hi'n hen bryd - dw i wedi hen laru ar gludo papur a phlastig 10 milltir i ffwrdd," dywedodd Alys Owen.

☑ O blaid

☐ Yn erbyn

6: "Bydd hi'n beth da iawn i'r pentref gan fod mwy o swyddi'n cael eu creu," meddai Dylan Roberts.

☑ O blaid

☐ Yn erbyn



©BBC

7: Pan mae gohebydd yn ysgrifennu adroddiad, mae'n enwi pobl ynddo yn gyson. Yn lle ailadrodd enw'r un person drosodd a throsodd, mae'r gohebydd yn defnyddio rhagenwau e.e. hi, fe, nhw. Dewiswch y rhagenwau gorau o'r rhestr i gwblhau'r adroddiad papur newydd nesaf:

Bu dadlau mawr yn Eisteddfod Sir Llanunman ddoe. Ar ôl i'r beirniad Mrs Siân Owen gyhoeddi enw enillydd yr unawd dan 10, gwnaeth nifer o rieni gwyno am y penderfyniad.

Dywedodd Mrs Owen wrthyn **nhw** ei bod **hi** wedi meddwl yn ofalus cyn dod i'r penderfyniad. Roedd **hi'n** bendant fod yr enillydd yn haeddu'r wobr gyntaf.

Roedd y rhieni anhapus yn benderfynol o gwyno ymhellach a chyhoeddon **nhw** eu bwriad i ysgrifennu llythyr at y pwyllgor gwaith.

Dywedodd Mrs Dafis, un o'r rhieni anhapus, "Rydyn **ni'n** credu fod Mrs Owen ar fai am roi'r wobr gyntaf i'w merch **hi** eu hunain, Blodwen Haf Owen."

8: Mae gohebydd yn ysgrifennu adroddiad yn fyr ac yn fachog. Gallwch ddefnyddio berfau cryno er mwyn ysgrifennu yn symlach ac yn fyrrach e.e. yn lle 'Roedd Mr Jones wedi cerdded i'r neuadd', ysgrifennwch 'Cerddodd Mr Jones i'r neuadd'.

Darllenwch y llinellau nesaf o adroddiadau a dewiswch ffurf gryno'r ferf. (Cwestiynau 8-11)

Gwnaeth y cyngor benderfynu gohirio'r gyngerdd

- ☐ Dathlodd
- ☐ Canodd
- ☑ Penderfynodd
- ☐ Enillodd


©BBC

9: Roedd y cwmni wedi dathlu'r wobr yn y gwesty lleol

- [x] Dathlodd
- [ ] Canodd
- [ ] Penderfynodd
- [ ] Enillodd

10: Gwnaeth Ysgol Llanunman ennill cystadleuaeth ysgrifennu cerdyn post

- [ ] Dathlodd
- [ ] Canodd
- [ ] Penderfynodd
- [x] Enillodd

11: Roedd y plant wedi canu'n swynol yng nghyngerdd Nadolig yr ysgol

- [ ] Dathlodd
- [x] Canodd
- [ ] Penderfynodd
- [ ] Enillodd


©BBC